

Cytundeb Cydnabod Prifysgol Aberystwyth

1. Aelodaeth o Undebau Llafur

- 1.1 Mae Prifysgol Aberystwyth (y Brifysgol) yn cefnogi'r drefn o gydfargeinio ac yn credu yn yr egwyddor o geisio datrys problemau cysylltiadau diwydiannol drwy drafodaeth a chytundeb.
- 1.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod, ar gyfer cydfargeinio, fod gan yr Undebau Llafur a ganlyn hawl i fargeinio ar ran cyflogaion y Brifysgol: Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) UNITE ac UNSAIN.
- 1.3 Mae'r holl bartïon yn rhannu ymrwymiad i gynaliadwyedd a llwyddiant y Brifysgol. Mae'r Brifysgol a'r Undebau Llafur yn cydnabod ac yn parhau'r ffaith fod ganddynt rolau penodol a chyfreithlon.

2. Pwrpas y Cytundeb

- 2.1 Pwrpas y Cytundeb hwn yw hybu cydweithio effeithiol rhwng y Brifysgol a'r Undebau Llafur a gydnabyddir ganddi. Mae'r Cytundeb hwn yn manylu ar gydnabyddiaeth a chynrychiolaeth yr Undebau Llafur yn y Brifysgol a threfniadau gweithrediadol eglur ar gyfer rhannu gwybodaeth, ymgynghori a chyd-drafod.
- 2.2 Fel rhan o'r Cytundeb hwn, bydd yr holl bartïon yn ymrwymo i gydweithio yn unol â gwerthoedd urddas, cwrteisi a pharch y Brifysgol ac yn cadarnhau eu parch at ei gilydd a chydabyddiaeth y gall gwahanol safbwyntiau fodoli a bod yn ddilys. Y nod cyffredinol fydd sicrhau canlyniad o fudd i Brifysgol Aberystwyth a'i staff.
- 2.3 Mae'r Brifysgol a'i chydweithwyr yn yr Undebau Llafur yn ymrwymo i gydweithredu ac i rwystro materion rhag gwaethygu'n ddiangen lle bo hynny'n bosibl. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, bydd pawb sy'n rhan o drafodaethau o'r fath yn gyfrifol am feithrin cysylltiadau cadarnhaol a fydd yn rhwystro a, lle bo angen, yn datrys drwy gytundeb problemau sy'n codi. Lle bo hynny'n bosibl, caiff materion eu trafod a'u datrys drwy drafodaeth gynnar ac anffurfiol. Bydd y materion hynny sydd angen cydgytundeb ffurfiol yn cael eu neilltuo i'w trafod mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi.
- 2.4 Mae'r holl bartïon yn cydnabod hawl aelodau unigol o'r staff i ymaelodi neu beidio ag Undeb Llafur o'u dewis. Mae'r Brifysgol yn cydnabod hawl Undebau Llafur i ethol nifer o gynrychiolwyr lleol i weithredu ar eu rhan. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod rôl Swyddogion amser llawn wrth gynorthwyo cynrychiolwyr lleol yn eu gwaith.

3. Egwyddorion Cyffredinol

3.1 Mae'r Undebau Llafur yn cydnabod mai rôl y Brifysgol yw cynllunio, trefnu a rheoli gwaith y sefydliad er mwyn sicrhau sefydliad cynaliadwy sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau posibl wrth ddilyn y nodau a'r amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol y Brifysgol.

3.2 Mae'r Brifysgol yn cydnabod mai rôl Undeb Llafur yw cynrychioli buddiannau ei aelodau.

4. Cwmpas y Cytundeb

Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i ymgymryd â'r canlynol ar y cyd â'r Undebau Llafur cydnabyddedig:

4.1 **Gwybodaeth** – Bydd y Brifysgol yn cyflawni ei dyletswydd yn ôl deddfwriaeth gyflogi gyfredol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth. Mae'r Brifysgol yn addo y bydd yn darparu'r wybodaeth benodol (hynny yw, y rhestrau staff diweddaraf) i'r Undebau Llafur ar gyfer cynnal ymgynghori effeithiol. Rhaid i'r holl bartïon hysbysu ei gilydd yn gyson ynghylch pob mater perthnasol. Darperir gwybodaeth berthnasol yn brydlon a chyda phob ewylllys da.

4.2 **Ymgynghori** – Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i gydymffurfio â'i gofynion statudol a bydd yn ymgynghori ynghylch diswyddo arfaethedig, trosglwyddiadau TUPE a materion lechyd a Diogelwch (drwy'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch) a pholisïau yn cynnwys disgyblu, cwynion, salwch a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth a rheoli perfformiad. Bydd y Brifysgol hefyd yn ymgynghori yn ôl yr angen ynghylch cynlluniau pensiwn galwedigaethol, ac eithrio'r rheiny y bydd ymgynghori arnynt yn digwydd yn genedlaethol. Mae'r holl bartïon yn ymrwmo i gyfnewid barn, gyda'r cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau a'r addasiad ohonynt cyn eu ffurfio'n derfynol. Cynhelir pob trafodaeth gyda golwg ar sicrhau'r hawl i staff gynnig adborth ar faterion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ni fydd materion a negodir yn genedlaethol yn cael eu trafod yn lleol.

4.3 **Negodi** – Bydd y Brifysgol yn negodi gyda golwg ar ddod i gytundeb â'r Undebau Llafur cydnabyddedig ynghylch cyflog (yn cynnwys graddio), oriau gwaith, gwyliau a thelerau ac amodau eraill cyflogaeth, oni bai eu bod yn cael eu trafod yn genedlaethol. Negodi yw ceisio sicrhau cytundeb drwy drafod. Ni fydd materion a negodir yn genedlaethol yn cael eu trafod yn lleol.

4.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod hawliau'r Undebau Llafur cydnabyddedig i gynrychioli buddiannau eu haelodau ar faterion unigol.

4.5 Nid yw'r Cytundeb hwn yn effeithio ar hawliau cydnabyddiaeth cenedlaethol yr Undebau Llafur sy'n rhan ohono.

5. Cynrychiolwyr Undebau Llafur

5.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod cynrychiolwyr Undebau Llafur yn cyflawni swyddogaeth bwysig ac na fydd cyflawni eu dyletswyddau fel cynrychiolwyr Undebau Llafur yn niweidiol i'w cyflogaeth gyda'r Brifysgol.

5.2 Os ceir honiad yn erbyn Cynrychiolydd Undebau Llafur, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Swyddog Undebau Llafur Rhanbarthol perthnasol cyn galw unrhyw weithdrefn i rym.

5.3 Cadarnheir bod rôl cynrychiolydd unigol Undebau Llafur fel a ganlyn:

- Bod yn rhan o'r Proses Cyfryngu neu ei hwyluso
- Cymryd rhan wrth gynnal gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- Bod yn rhan o drefniadau ymgynghori ar faterion sy'n effeithio ar fuddiannau aelodau
- Cymryd rhan wrth negodi
- Gweithio gyda'r Brifysgol a'i chyflogeion i gynnal cysylltiadau cyflogaeth da

5.4 Bydd y Brifysgol yn hysbysu staff newydd o'r cyfle i ymuno ag undeb llafur ac yn gwahodd Undebau Llafur i fynychu digwyddiadau cyflwyno corfforaethol.

5.5 Bydd y Brifysgol yn hwyluso e-bost at holl staff y brifysgol ddwywaith y flwyddyn i dynnu sylw at undebau llafur er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch ymaelodi ag undebau llafur a chael eich cynrychioli ganddynt.

6. Trefniadau Cyfleusterau

6.1 Mae'r Brifysgol a'r Undebau Llafur yn cytuno i weithio tuag at gytundeb amser cyfleusterau ffurfiol yn y gobaith o sicrhau cytundeb ymhen 6 mis o ddyddiad llofnodi'r cytundeb hwn.

7. Y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi

7.1 Bydd Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi (JCNC) y bydd y Brifysgol a'r holl Undebau Llafur cydnabyddedig yn cael eu cynrychioli arno, yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn, sef mis fel arfer cyn cyfarfod Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol a Staffio'r Brifysgol, a bydd y cofnodion y cytunwyd arnynt (ond heb eu cadarnhau) yn cael eu hadrodd yn y Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol a Staffio, sy'n adrodd wrth Gyngor y Brifysgol.

7.2 Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol ar gais y naill ochr neu'r llall. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau y bydd cyfarfodydd o'r fath fel arfer yn gael eu galw ymhen 14 diwrnod gwaith yn dilyn cais o'r fath.

7.3 Bydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi yn cynnwys pedwar cynrychiolydd o Gyngor y Brifysgol, a'r Is-Ganghellor fydd un ohonynt; bydd pob un o'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn cael eu cynrychioli gan hyd at bedwar cynrychiolydd ac un cofnodwr nodiadau. Gwneir darpariaeth ar gyfer eilyddion.

- 7.4 Bydd cworwm yn cynnwys tri chynrychiolydd o Gyngor y Brifysgol ac un cynrychiolydd o bob undeb llafur cydnabyddedig.
- 7.5 Bydd gan yr undebau llafur a'r Brifysgol yr hawl i alw hyd at ddau ymgynghorydd yn cynnwys Swyddogion Cenedlaethol Cymru neu'r DU a Swyddogion cyflogedig.
- 7.6 Penodir Cadeiryddion bob yn ail, y naill gan y Brifysgol a'r llall gan yr Undebau Llafur. Y Brifysgol fydd yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol y Pwyllgor ond gall yr Undebau Llafur alw ar gofnodydd o'u dewis.
- 7.7 Bydd y naill ochr a'r llall yn hysbysu ei gilydd yn ysgrifenedig (yn cynnwys e-bost) o'r pynciau i'w trafod, fel arfer 10 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi. Bydd y pynciau ar yr Agenda fel arfer yn cael eu cytuno gan y Cadeirydd. Dosberthir papurau o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.
- 7.8 Cofnodir penderfyniadau pob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi mewn cofnod y cytunir arno, a chaiff y cofnodion eu cytuno gan y Cadeirydd ac un cynrychiolydd arall o'r Brifysgol neu'r undebau llafur (bob yn ail, gan ddibynnu ar bwy fu'n cadeirio yn y cyfarfod blaenorol) fel arfer o fewn i 10 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.
- 7.9 Bydd gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi yr hawl i sefydlu gweithgorau i drafod materion arbennig a phenderfynu ar yr aelodau. Sefydlir Gweithgor Sefydlog Adnoddau Dynol a Pholisïau a Gweithdrefnau cysylltiedig. Pwrpas y gweithgor fydd sefydlu polisïau a gweithdrefnau newydd yn ôl yr angen ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes. Bydd y gweithgor yn adrodd wrth y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi.
- 7.10 Rhaid i bob gweithgor a sefydlir gael cylch gorchwyl wedi'i gytuno cyn iddo gael ei sefydlu gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi ac adrodd yn ôl wrth y Cydbwyllgor hwnnw Ni all gweithgor wneud penderfyniadau, ond gall wneud argymhellion i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi. Dosberthir cofnodion gweithgorau gyda'r dogfennau ar gyfer y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi, a bydd y Cadeiryddion yn cytuno ar y cofnodion cyn iddynt gael eu dosbarthu.
- 7.11 Bydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi yn trafod materion y bydd angen cydgytundeb arnynt a materion cyfunol perthnasol na chafodd eu datrys yn anffurfiol. Gwneir pob ymdrech i ddatrys anghydfod yn anffurfiol yn y lle cyntaf. Cynhelir unrhyw gyfarfodydd fydd eu hangen ar gyfer cydymgyngori ar ddiswyddo ac adleoli arfaethedig fel sy'n briodol ac yn ychwanegol at y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi.
- 7.12 Bwriad y ddwy ochr yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi fydd dod i gytundeb ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion i'w trafod sy'n berthnasol i'r Undebau. Anfonir cofnodion y Cydbwyllgor i'r Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol a Staffio a thrwy'r Pwyllgor hwnnw i Gyngor y Brifysgol.

8. Datrys Anghydfod

- 8.1 Mewn achos o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi yn cofnodi methiant i ddod i gytundeb sy'n dderbyniol i'r Undebau a'r Brifysgol ar fater i'w negodi yn ystod y Cydbwyllgor, neu ar unrhyw adeg arall, gelwir cyfarfod arbennig o'r Cydbwyllgor ymhen 10 diwrnod gwaith o'r cyfarfod cyntaf neu o'r hysbysiad o'r methiant i gytuno.
- 8.2 Os methir cytuno yng nghyfarfod arbennig y Cydbwyllgor Ymgynghorol a Negodi, ac os bydd y naill barti a'r llall yn cytuno, gellir cyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) er mwyn ceisio datrys yr anghydfod drwy broses o gymodi neu gyflafareddu.
- 8.3 Ni fydd yr Undebau Llafur, ar y cyd nac yn unigol, na'r Brifysgol yn cychwyn ar unrhyw ffurf o weithredu diwydiannol nac yn newid y status quo mewn perthynas â materion a nodir yn y Cytundeb hwn hyd nes bydd y weithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau wedi'i dihysbyddu gan y naill ochr neu'r llall. Yr eithriadau i hyn fydd
- (a) Gweithredu diwydiannol yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i Bolisi Undebau Llafur Cenedlaethol Cymru neu'r DU
 - (b) Gweithredu a wneir yn angenrheidiol gan ddeddfwriaeth

9. Amrywio, Hyd a Therfynu

- 9.1 Bydd y Cytundeb hwn y mae'r Brifysgol yn wirfoddol yn cydnabod yr Undebau Llafur ynddo yn cael ei adolygu ar y cyd 12 mis ar ôl iddo ddod i rym.
- 9.2 Rhaid i Gynrychiolwyr yr Undebau Llafur cydnabyddedig a chynrychiolwyr y Brifysgol gydgytuno cyn y gellir diwygio neu newid y Cytundeb hwn.
- 9.3 Bydd y Cytundeb hwn yn amodol i'w derfynu os bydd un Undeb Llafur yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol (neu fel arall) i'r perwyl hwnnw. Bydd y Cytundeb rhwng y Brifysgol a'r Undebau Llafur eraill yn parhau.